**Cross Party Group for North Wales**
**Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru**

# Cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Ogledd Cymru yn Senedd Cymru
# Dydd Gwener 8 Ionawr 2021

## Yn bresennol

<u>Aelodau o'r Senedd:</u>
Llyr Gruffydd AS (**yn y Gadair**), Mark Isherwood AS, Ann Jones AS, Dafydd Elis-Thomas AS, Janet Finch Saunders AS (rhan o'r cyfarfod), Rhun ap Iorwerth AS, Mandy Jones AS,
<u>Aelodau Seneddol:</u>
Dr. James Davies AS, Robin Millar AS, Rob Roberts AS, Mark Tami AS.
<u>Arweinwyr Awdurdodau Lleol</u>
Y Cynghorwyr Dyfrig Siencyn, Linos Medi-Huws, Sam Rowlands, Huw Evans ac Ian Roberts (cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Mark Pritchard)
<u>Swyddogion</u>
Stephen Jones (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Ysgrifennydd, a Tim Peppin (CLlLC), Cyfarwyddwr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy; Wendy Boddington, Llywodraeth Cymru
<u>Siaradwyr:</u>
Alwen Williams, Cyfarwyddwr Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

## Croeso gan y Cadeirydd

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod, gan nodi bod y grŵp trawsbleidiol wedi'i gynnull i drafod adroddiad ar Fargen Twf y Gogledd a gytunwyd yn ddiweddar.

## Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2020.

Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cytuno ac nid oedd unrhyw faterion yn codi ohonynt.

## Bargen Twf y Gogledd

*Cafwyd cyflwyniad agoriadol byr gan y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac Arweinydd Cyngor Gwynedd.*

Cafodd y Fargen Twf ei llofnodi gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ar 17 Rhagfyr 2020.

Un o brif lwyddiannau'r Bwrdd Uchelgais oedd sefydlu tîm penodol, llawn amser i lunio'r cynigion ar gyfer y Fargen Twf cyn i'r fargen derfynol gael ei llofnodi. Gwnaeth y bwrdd gau pen y mwdwl ar flynyddoedd o ymdrech i ddatblygu cynnig cryf ar gyfer y Fargen Twf.

Gwnaeth y Cynghorydd Siencyn ganmol cyfraniad swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU at y gwaith ar y Fargen Twf, yn ogystal â'r cymorth yr oedd y swyddogion hyn wedi'i roi i Swyddfa'r Rhaglen.

Mae'r gwaith tîm hwn rhwng Swyddfa'r Rhaglen a swyddogion y ddwy Lywodraeth wedi bod o gymorth mawr wrth sicrhau'r Fargen Twf, sy'n dechrau nawr!
Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi bod yn weithredol ers nifer o flynyddoedd. Cafodd ei sefydlu i wella'r ffocws ar ddatblygu economaidd ar ran awdurdodau lleol yn ôl yr egwyddor bod nerth mewn undod o ran gwaith yr awdurdodau lleol ar ddatblygu economaidd.

Datblygodd y bwrdd o ganlyniad i bartneriaeth wirfoddol, organig sydd hefyd yn cynnwys y sector preifat, addysg uwch ac addysg bellach.

Mae gan y cynghorau gwahanol ddiddordebau ac anghenion oherwydd bod eu cymunedau yn wahanol. Mae gwaith y Bwrdd Uchelgais yn seiliedig ar ddatblygu gweledigaeth gyffredin a rhannu diddordebau, lle mae'n bosibl cyflawni mwy drwy gydweithio na thrwy weithio ar wahân. Am y rheswm hwn, mae partneriaeth gref wedi'i sefydlu.

Mae'r sector preifat yn gweithio gyda'r Bwrdd Uchelgais hefyd. Weithiau, caiff teimladau o rwystredigaeth eu mynegi gan gyfeillion o'r sector preifat ynghylch cyflymder y broses o wneud penderfyniadau, yn ogystal â natur y broses ei hun. Fodd bynnag, maent wedi bod yn gefnogol, ac wedi rhoi llawer o gyngor ar y Fargen a sut i sicrhau'r buddion gorau posibl yn sgil y cynigion.

Mae llofnodi'r Fargen cyn diwedd 2020 yn fanteisiol oherwydd mae'n galluogi taliad cychwynnol o £16 miliwn ar ffurf grant cyfalaf gan y Llywodraeth yn 2020/21, cyn taliad arall o £16 miliwn ym mis Ebrill 2021 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22. Mae hyn yn golygu y bydd gan y Bwrdd £32 miliwn i'w wario ar y prosiectau a gytunwyd yn y Fargen.

Mae'r Bwrdd yn bwriadu gwario'r arian cyfalaf o £240 miliwn a ddyrannwyd i'r Fargen dros gyfnod o chwe blynedd. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i bartneriaid fenthyg cyllid. Caiff yr arian cyfalaf ei ad-dalu dros gyfnod o bymtheg mlynedd, gyda grant cyfalaf o £16 miliwn y flwyddyn gan y ddwy Lywodraeth. Y partneriaid fydd yn gyfrifol am dalu unrhyw gostau ychwanegol (llog at ati).

Nododd y Cynghorydd Siencyn ei fod yn falch o'r gwaith a wnaed wrth gytuno ar y Fargen, yn enwedig ymdrechion Alwen Williams a'i thîm. Yn ogystal â sicrhau'r Fargen Twf, mae'r Bwrdd Uchelgais a Swyddfa'r Rhaglen wedi arwain gwaith ar adfer yr economi ar y cyd â Thîm Rhanbarthol Llywodraeth Cymru mewn ymateb i effeithiau'r pandemig COVID-19.

Mae COVID-19 wedi achosi difrod sylweddol yn y sector twristiaeth ac mae pecyn y Fargen Twf bellach yn cynnwys prosiectau a fydd yn ceisio hyrwyddo adferiad cyflym economi ymwelwyr sydd yn fwy gwydn yng Ngogledd Cymru ar ôl y pandemig.

Gofynnodd y Cynghorydd Siencyn i Alwen Williams gyflwyno ei hun ac adrodd yn ôl ar becyn y Fargen Twf.

Nododd Alwen Williams ei bod wedi bod yn gwneud y swydd ers ychydig dros ddeuddeg mis, ar ôl gweithio gyda BT yn y gorffennol. Mae ganddi gefndir blaenllaw yn y sector preifat a bu'n gweithio'n agos gyda'r awdurdodau cyhoeddus yn ystod ei chyfnod gyda BT.

Mae Alwen yn dod o Ogledd Cymru yn wreiddiol, a siaradodd yn angerddol am ei hymrwymiad personol i Ogledd Cymru a'r fraint o allu "dod adref" a gweithio er lles ei chymuned.

Nododd Alwen fod Bargen Twf y Gogledd wedi datblygu allan o'r 'Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru' (Gorffennaf 2016).
Bellach, mae angen ailwampio'r weledigaeth hon ar gyfer economi'r rhanbarth oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio, y camau i gytuno'r Fargen Twf ac effaith Brexit a COVID-19. Bydd y broses ailwampio hon yn parhau unwaith i bwysau'r pandemig COVID-19 ostwng.

Mae'r weledigaeth ar gyfer y rhanbarth yn parhau'n berthnasol oherwydd y dylai'r weledigaeth hon ymdrin â'r economi ehangach, gan annog buddsoddiadau sy'n adeiladu ar Fargeinion Twf ac sy'n mynd i'r afael â materion sydd y tu hwnt i gylch gorchwyl y Fargen Twf ei hun, fel seilwaith trafnidiaeth.

Mae'r angen inni ymdrin â methiant y farchnad a phroblemau hanesyddol mewn rhannau o'r rhanbarth yn parhau, yn ogystal â'r angen i nodi heriau y bydd yn rhaid cyflwyno ystod ehangach o bolisïau ac ymyraethau i'w datrys nag sydd wedi'u nodi yn y Fargen Twf.

Mae'r Fargen Twf yn cynnwys set penodol o ymyraethau sydd bellach yn rhaid eu gwneud. Mae yna gwestiwn ehangach o ran sut i sicrhau rhagor o fuddsoddiad yn y rhanbarth i ymdrin â'r ystod o heriau strwythurol y mae'r economi ranbarthol yn eu hwynebu.

Mae'r Fargen Twf wedi'i seilio ar £240 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf gan y sector cyhoeddus, sydd wedi'i gyllido 50:50 gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan ddenu buddsoddiad ychwanegol gan y sector preifat a phartneriaid eraill fel addysg uwch ac addysg bellach. Nod y Fargen Twf yw ychwanegu £2.5 biliwn at werth ychwanegol gros y rhanbarth (gwerth ychwanegol gros yng Ngogledd Cymru oedd £14.2 biliwn yn 2018).

Mae twf Gogledd Cymru wedi elwa o fuddsoddiad cyflym yn Swyddfa'r Rhaglen, gan gynyddu'r capasiti a'r gallu i lunio achosion busnes ac i sicrhau bod y prosiectau'n digwydd ar lawr gwlad yn sgil taro'r Fargen. Mae Bargeinion Twf eraill yng Nghymru wedi dioddef oherwydd diffyg buddsoddiad mewn timau gweithredu ymlaen llaw, ac mae Gogledd Cymru wedi llwyddo i osgoi'r fagl hon.

Cyn llofnodi'r Fargen ym mis Rhagfyr, canolbwyntiodd tîm Swyddfa'r Rhaglen ar geisio deall sut i ddenu buddsoddiad drwy ysgrifennu achosion busnes cymhellol, gan dderbyn cymorth sylweddol gan arbenigwyr y Llywodraeth ar y 'model pum achos' ar gyfer gwerthuso buddsoddiadau a ddisgrifir yn Llyfr Gwyrdd y Trysorlys. Arweiniodd hyn at dros 1,000 o dudalennau o gynlluniau a gymerodd misoedd i'w hysgrifennu a'u golygu, cyn i bartneriaid eu hadolygu.

Hyd yn hyn, mae'r deunyddiau ar achosion busnes wedi canolbwyntio ar lefel y rhaglen. Wrth symud ymlaen at y camau gweithredu, bydd y ffocws yn symud at lefel y prosiect.

Caiff achosion busnes ar gyfer prosiectau penodol eu cyflwyno i Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru.

*Canolbwyntiwyd ar y pecyn sleidiau yn ystod y rhan hon o'r cyflwyniad. Mae rhagor o wybodaeth o'r cyflwyniad llafar wedi'i nodi isod.*

***Mae yna ddwy brif raglen galluogi:-***

- Digidol
- Tir ac eiddo

## Y rhaglen ddigidol

Mae’r rhaglen hon yn un wirioneddol ranbarthol.

Bydd yn dod â buddion i 19 o safleoedd rhanbarthol allweddol, a 2,600 o safleoedd eraill sydd â dros 4,000 o fusnesau a 450 o ddatblygiadau preswyl, drwy osod ffeibr llawn ar safleoedd allweddol a thrwy’r prosiect Campysau Cysylltiedig. Bydd y prosiectau hyn yn gwneud band eang gwibgyswllt yn fwy fforddiadwy, a byddant yn arbennig o fuddiol i fusnesau bach a chanolig eu maint.

Bydd y cynllun Coridor Cysylltiedig yn edrych ar asedau i hybu cysylltedd ar hyd yr A55 a’r brif reilffordd ar hyd yr arfordir, gan edrych yn benodol ar wella cysylltedd diwifr, yn enwedig y broses o gyflwyno cyswllt 5G ar hyd y coridor hwnnw.

Bydd gwaith ar gysylltu’r ychydig safleoedd sy’n weddill yn dod â band eang cyflym iawn i ardaloedd gwledig lle mae bylchau, gan ddod â buddion i 4,300 o fusnesau a 10,000 o adeiladau preswyl.

Mae Canolfan Ragoriaeth y Ganolfan Prosesu Signalau Digidol wedi’i lleoli ym Mhrifysgol Bangor, a bydd y Fargen Twf yn galluogi’r ganolfan i brynu offer newydd i barhau â’r gwaith ymchwil technolegol i wella effeithlonrwydd signalau 5G.

## Tir ac eiddo

Mae’r rhaglen tir ac eiddo yn ymdrin â diffyg safleoedd datblygu ar gyfer tai a chyflogaeth yn yr ardal. Bydd y rhaglen yn galluogi datblygiadau sydd eisoes wedi’u nodi fel rhwymedigaethau mewn cynlluniau datblygu lleol i gael eu cwblhau.

Y buddsoddiad mwyaf yn y rhaglen hon yw Porthladd Caergybi, sef un o brif asedau strategol y rhanbarth, lle mae cynlluniau i ehangu ac ailddatblygu cyfleusterau’r porthladd.

Mae’r safleoedd eraill y bydd yn rhaid buddsoddi yn eu seilwaith sylfaenol i’w gwneud yn addas ar gyfer mewnfuddsoddi fel a ganlyn:-

- Porth Wrecsam: Caniatâd a gwasanaethau
- Neuadd Warren: Caniatâd a gwasanaethau
- Ysbyty Dinbych: Clirio ac adfer y safle a darparu gwasanaethau sylfaenol
- Bodelwyddan: Galluogi datblygiad preswyl a masnach cymysg
- Bryn Cegin: Darparu unedau masnachol

***Mae’r rhaglenni sy’n weddill yn adeiladu ar gryfderau sectorol yr ardal:-***

- Ynni carbon isel
- Arloesi mewn gweithgynhyrchu uchel ei werth
- Bwyd-amaeth a thwristiaeth

## Ynni carbon isel

Bydd y rhaglen hon yn datgloi prosiectau ynni allweddol ac yn eu galluogi i fynd yn eu blaenau. Bydd y prosiectau hyn yn dangos bod Gogledd Cymru yn ganolfan ragoriaeth o ran arloesi mewn cynhyrchu ynni, ac yn gartref i safleoedd i brofi technegau a thechnolegau newydd i gynhyrchu ynni. Mae'r cyfleusterau ymchwil ac arloesi yn cyd-fynd ag asedau cynhyrchu ynni sylweddol y rhanbarth yn y sectorau ynni niwclear a gwynt ar y tir/ar y môr, ac yn deillio o'r asedau hyn hefyd.

**Gweithgynhyrchu uchel ei werth**

Mae dau brosiect yn rhan o'r rhaglen hon, un ohonynt wedi'i noddi gan Brifysgol Bangor i ehangu gwaith arloesol gydag ensymau er lles y diwydiant cemegau, gan gynnwys cwmnïau fel Unilever, a'r llall wedi'i noddi gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam i ddatblygu cyfleusterau peirianneg ar gyfer y sectorau uwch-weithgynhyrchu ac opteg.

**Morlais**

Mae parth arbrofol Morlais yn galluogi sawl cwmni i brofi ei dechnoleg tyrbinau llanw. Bydd prosiect y Fargen Twf yn cyllido cyswllt â'r grid cenedlaethol o'r maes arbrofi ac yn galluogi'r parth arbrofol i gael ei ehangu, gan olygu y gellir o bosibl gynhyrchu hyd at 180MW o ynni.

**Canolfan ragoriaeth ynni carbon isel**

Bydd y ganolfan hon yn cael ei lleoli ar safle Prifysgol Bangor ym Mharc Gwyddoniaeth Menai (m-sparc), gan ganolbwyntio ar dechnolegau cynhyrchu niwclear i hyrwyddo mewnfuddsoddiad yn y maes hwn yng Ngogledd Cymru.

**Gorsaf Bŵer Trawsfynydd**

Mae'r Fargen Twf yn cyllido gwaith i baratoi'r safle a gosod seilwaith alluogi yng Ngorsaf Bŵer Trawsfynydd ar gyfer profi adweithyddion modwlar bach i ddangos y gellir cynhyrchu ynni niwclear am gost is o'i chymharu â'r datblygiadau sydd ag adweithyddion anferth, fel Hinckley Point.

**Ynni lleol craff**

Bydd y prosiect hwn yn gweld cynlluniau'n cael eu datblygu i gynhyrchu ynni carbon isel (solar, gwynt ac ati) ar dir awdurdodau lleol ac yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu gridiau lleol.

**Datgarboneiddio trafnidiaeth**

Bydd cyfleusterau'n cael eu datblygu i gynhyrchu hydrogen fel tanwydd ar gyfer bysiau a lorïau fel rhan o gynlluniau peilot ar gyfer trafnidiaeth hydrogen.

**Bwyd-amaeth a thwristiaeth**

Nod y rhaglen hon yw datblygu economi sylfaenol ym meysydd amaethyddiaeth a thwristiaeth sy'n fwy dichonadwy.

Mae yna brosiectau sy'n cynnwys y ddau goleg ffermio, sef Llysfasi and Glynllifon, ynghyd â phrosiect talent twristiaeth o fewn Coleg Llandrillo-Menai.

Bydd Glynllifon yn arloesi o ran y ffordd y caiff bwyd a diod a gynhyrchir yn lleol eu cyflwyno a'u defnyddio, tra bydd Llysfasi yn ymchwilio i ddulliau arloesol o ran technegau cynhyrchu amaethyddol a ffyrdd o ddatgarboneiddio amaethyddiaeth.

Bydd y prosiect talent twristiaeth yn ceisio cynyddu sgiliau o fewn diwydiant twristiaeth Gogledd Cymru.

**Sylwadau i gloi**

Mae rhaglenni'r Fargen Twf yn cyd-fynd yn dda ag egwyddorion ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy hyrwyddo twf cynaliadwy a chynhwysol.

Mae'r Fargen Twf yn gosod sylfaen i'r awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i gynyddu buddsoddiad a thwf.

Mae'r gwaith ar weithredu'r prosiectau wedi dechrau ac mae'r amserlen weithredu ddangosol ar gyfer pob prosiect wedi'i chynnwys yn y cyflwyniad. Caiff yr amserlen hon ei diweddaru'n rheolaidd yn dibynnu ar hynt yr achosion busnes cysylltiedig.

## Cwestiynau a thrafodaeth

Cafwyd canmoliaeth gan Rob Roberts AS am y cyflwyniad, a holodd ynghylch y berthynas rhwng prosiect ynni morlyn llanw Doc Mostyn a'r Fargen Twf.

Atebodd Alwen Williams fod prosiect Doc Mostyn heb ei gynnwys yn y Fargen Twf, ond ei fod yn gyson â themâu ac amcanion y Fargen a'r strategaeth sydd y tu ôl iddi.

Ni ellir cyllido pob datblygiad yn y rhanbarth drwy'r Fargen Twf. Mae'n well gan nifer o ddatblygwyr dwyn eu prosiectau yn eu blaenau drwy ddulliau masnachol neu ffynonellau amgen o fuddsoddiad cyhoeddus.

Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ceisio cael mynediad at gyllid cyhoeddus ychwanegol, fel y Gronfa Ffyniant Gyffredin, i alluogi buddsoddiad yn y rhanbarth drwy becyn newydd o brosiectau yn y dyfodol.

Nododd y Cynghorydd Llinos Medi Huws:-

- y dylai Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ganolbwyntio ar weithredu prosiectau gwreiddiol y Fargen Twf am y tro, heb ddargyfeirio'i sylw at brosiectau newydd; a
- bod angen rheoli disgwyliadau, oherwydd ni fydd yn bosibl ateb pob un o'r heriau economaidd sy'n wynebu Gogledd Cymru gyda chyllideb o £240 miliwn.

Mae'n rhaid i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru fod yn ofalus ac osgoi bod yn rhy uchelgeisiol.

Roedd y Cynghorydd Siencyn yn anghytuno'n llon, gan annog pawb i fod yn uchelgeisiol wrth chwilio am ffynonellau o fuddsoddiad yn y dyfodol. Mae sefydlu Swyddfa'r Rhaglen sydd ag adnoddau digonol yn gyfle arbennig i weithredu'r Fargen Twf ac i annog ffynonellau eraill o gyllid.

Gwnaeth Mark Isherwood AS longyfarch Swyddfa'r Rhaglen a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar y cynnydd sydd wedi'i wneud wrth ddwyn y Fargen Twf yn ei blaen.

Ychwanegodd fod Cyngor Busnes Mersi a'r Ddyfrdwy Gogledd Cymru wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu'r Fargen Twf ond bod aelodau'r cyngor wedi gadael Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ym mis Awst 2020. Hefyd, nododd fod y Cynghorau Gwirfoddol Sirol wedi ei holi ynghylch eu hymgysylltiad â'r Fargen Twf a'r Bwrdd Uchelgais.

Gofynnodd Mark Isherwood AS:-

- Pa gyfraniad y bydd Cyngor Busnes Mersi a'r Ddyfrdwy Gogledd Cymru yn ei wneud i'r Fargen Twf a chynlluniau'r Bwrdd Uchelgais at y dyfodol?
- Pa gyfraniad y bydd y sector gwirfoddol yn ei wneud i'r Fargen Twf a chynlluniau'r Bwrdd Uchelgais at y dyfodol?
- A all Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru helpu busnesau ar hyd ffordd arfordirol yr A548 o amgylch Doc Mostyn drwy'r rhaglen tir ac eiddo?
- A all y rhaglen ynni gefnogi'r rhaglen ddigidol drwy gyflenwi ynni i rwydweithiau digidol a'u gorsafoedd?

Nododd Mark Isherwood fod y trafodaethau cychwynnol ar y Fargen Twf wedi cynnwys cynigion y dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo swyddogaethau o ran cymorth busnes, polisi sgiliau a marchnata i ddenu mewnfuddsoddiad o Gaerdydd at Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Roedd ar ddeall bod Llywodraeth y DU yn cefnogi cynigion o'r fath a bod Llywodraeth Cymru yn eu gwrthwynebu.

Gofynnodd a oedd yr agenda 'datganoli dwbl' hon, sydd wedi'i seilio ar fentrau yn Lloegr, yn parhau'n flaenoriaeth i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Ymatebodd Alwen Williams fel a ganlyn: -

Mae cyfraniad Ashley Rogers a Chyngor Busnes Mersi a'r Ddyfrdwy Gogledd Cymru wedi bod yn hanfodol yn y gwaith o sicrhau'r Fargen Twf, gan ychwanegu ei bod wedi cydweithio ag Ashley ar ôl iddi gael ei phenodi.

Gwnaeth Cyngor Busnes Mersi a'r Ddyfrdwy Gogledd Cymru dynnu yn ôl o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru oherwydd nid oedd yn gallu parhau i ddarparu'r adnoddau ar gyfer y cyfarfodydd i ddatblygu'r achosion busnes manwl yr oedd yn rhaid eu cael i daro'r Fargen Twf.

Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn parhau i weithio gyda Chyngor Busnes Mersi a'r Ddyfrdwy Gogledd Cymru fel rhanddeiliaid, a phwysleisiwyd bod cyngor gan y Cyngor Busnes ar faterion strategol yn parhau'n hynod werthfawr.

Mae gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gysylltiadau da â'r byd busnes drwy Gyngor Busnes Mersi a'r Ddyfrdwy Gogledd Cymru a chorff penodol arall, sef y Grŵp

Gweithredu Busnes, o dan gadeiryddiaeth Askar Sheibani o gwmni Comtek yng Nglannau Dyfrdwy, a sefydlwyd i roi cyngor i'r Bwrdd ar brosiectau'r Fargen Twf. Rhoddodd y Grŵp Gweithredu Busnes gyngor sectorol ac adborth i wella'r cynigion ar gyfer cyllid gan y ddwy Lywodraeth.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau Etholedig fod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn blaenoriaethu'r gwaith o ymgysylltu â byd busnes.

Nodwyd bod llai o ymgysylltu â'r sector gwirfoddol. Mae trafodaethau â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn parhau er mwyn nodi cyfleoedd i gydweithio.

Ymatebodd y Cynghorydd Siencyn i'r cwestiwn ar ddatganoli dwbl yng Nghymru, gan nodi y bu'n rhaid cyfaddawdi â Llywodraeth Cymru i gyflawni'r Fargen.

I ddechrau, roedd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru am weld cyfrifoldeb dros gynllunio a buddsoddiad ynghylch trafnidiaeth, sgiliau, cymorth busnes a mewnfuddsoddiad yn cael ei ddatganoli.

Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn parhau'n awyddus i weld swyddogaethau'n cael eu datganoli o Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n llunio cynigion ar weithio rhanbarthol ym meysydd y swyddogaethau hyn ar gyfer cynghorau nad ydynt yn cyd-fynd â'r diffiniad o ddatganoli, a hynny gan fod yn debycach i ganoli gwasanaethau'r cynghorau.

Nid yw'r Cynghorydd Siencyn yn ymwybodol o wahaniaethau mewn agweddau tuag at 'ddatganoli dwbl' yng Nghymru rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Bydd Alwen Williams yn ymateb yn uniongyrchol i Mark Isherwood AS ar y cwestiynau eraill.

Nododd Dafydd Elis Thomas AS ei fod yn falch o weld y cyflwyniad a chael sicrwydd bod y Fargen yn ei lle. Ychwanegodd ei fod yn awyddus i weld perthynas dda rhwng Llywodraeth Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Mae datblygu strategaeth ranbarthol yn hanfodol i alluogi trafodaethau ar ragor o fuddsoddiad yng Ngogledd Cymru â'r Llywodraeth.

Nododd Llyr Gruffydd mai un o brif amcanion y Fargen yw defnyddio buddsoddiad cyhoeddus i ddenu buddsoddiad yn y rhanbarth gan y sector preifat. Gofynnodd y cwestiynau a ganlyn:-

- Pa mor bwysig yw rhyddhau'r cyllid cyhoeddus?
- Beth fydd yn digwydd os nad yw cyllid preifat ar gael ar gyfer prosiect penodol?

Ymatebodd Alwen Williams drwy nodi: -

- Fod arian cyhoeddus yn ei le ag y bydd yn cael ei ryddhau drwy'r broses o gytuno ar achosion busnes.
- Os bydd prosiect y mae cyfran sylweddol o'i gyllid yn dod o fuddsoddiad sector preifat yn gweld y buddsoddiad hwnnw yn cael ei dynnu yn ôl, ni fydd y prosiect hwnnw yn ddichonadwy mwyach.

## Unrhyw fusnes arall

Nododd y Cadeirydd fod y grŵp yn annhebygol o gwrdd eto cyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021 gan nad oes unrhyw gyfarfodydd eraill wedi'u trefnu yn ystod gweddill tymor y Senedd hon.

Hefyd, nododd y Cadeirydd mai'r bwriad yw ailgynnull y grŵp trawsbleidiol yn ystod tymor y Senedd nesaf (yn amodol ar ailethol Aelodau ac ati).